GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board



# Strôc

**Cyflwr meddygol difrifol sy'n bygwth bywyd ac sy'n digwydd pan gaiff y cyflenwad gwaed i ran o'r ymennydd ei atal. Mae strôc yn argyfwng meddygol ac mae triniaeth frys yn hollbwysig.**

## Cyflwyniad

Mae strôc yn taro'n sydyn a gall arwain at ystod o anableddau neu farwolaeth, gan gael effaith ddwys ar unigolion a'u teuluoedd. Uned Strôc yw ble y dylech gael eich anfon o fewn pedair awr i gael eich derbyn i'r ysbyty ar gyfer eich gofal cychwynnol. Gorau po gyntaf y bydd person yn cael triniaeth ar gyfer strôc, y gorau fydd y siawns o wella.

Ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda ar hyn o bryd mae unedau strôc ym mhob un o'r pedwar ysbyty: Bronglais, Glangwili, Tywysog Philip a Llwynhelyg. Ar hyn o bryd nid yw ein gwasanaethau strôc yn bodloni safonau clinigol. Nid oes gennym ni wasanaeth 24 awr, saith niwrnod o gyflenwi arbenigol, nid oes gennym ddigon o staff i gefnogi hyn, ac nid oes gennym wasanaeth adsefydlu cymunedol sy'n bodloni'r safonau ar gyfer Gwasanaethau Strôc Cymunedol Integredig. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau nad ydynt cystal ag y gallent fod, a dyma pam mae angen i ni newid y ffordd y caiff gwasanaethau strôc eu darparu fel eu bod yn ddiogel, yn gynaliadwy, yn hygyrch ac yn garedig i gleifion a staff.

Mae tystiolaeth yn dangos bod canlyniadau a safonau yn well os caiff gwasanaethau eu dwyn ynghyd a'u darparu o lai o ysbytai os na ellir eu darparu'n ddiogel ac yn gynaliadwy ar draws sawl safle. Byddai dod â gwasanaethau ynghyd hefyd yn helpu gyda chyflogi a chadw staff, gan wneud y gwasanaeth yn fwy cynaliadwy.

## Beth yw'r opsiwn a ffefrir?

Mae'r opsiwn newydd a ffefrir wedi'i ddatblygu drwy ddwyn ynghyd elfennau o ddau syniad amgen a gynigiwyd gan ein cymunedau yn ystod cam cyntaf yr ymgynghoriad (Opsiwn 106 ac Opsiwn 210).

| Cipolwg | Bronglais | Glangwili | Tywysog Philip | Llwynhelyg |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Cyfredol** | Uned Strôc | Uned Strôc | Uned Strôc | Uned Strôc |
| **Opsiwn a Ffefrir** | Trin a Throsglwyddo<br>Uned Adsefydlu Strôc | Uned Strôc (gwasanaeth cyflenwi arbenigol 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos)<br>Gweithio'n rhanbarthol fel rhan o'r Rhaglen Strôc Genedlaethol yn y tymor hwy | Trin a Throsglwyddo | Trin a Throsglwyddo |

## Sut byddai'r opsiwn a ffefrir yn gweithio

O dan yr opsiwn hwn, byddai cleifion yr amheuir eu bod wedi cael strôc yn dal i gael asesiad strôc brys a thriniaeth gychwynnol cyn gynted â phosibl, fel arfer ar safle eu hysbyty agosaf. Gall hyn gynnwys sgan CT a Thrombolysis (triniaeth chwalu clotiau) lle bo hynny'n glinigol addas, yn dilyn sganiau cychwynnol ac asesiad.

Os bydd angen gofal strôc arbenigol pellach ar glaf, ar ôl yr asesiadau cychwynnol, byddai'n cael ei drosglwyddo i'r Uned Strôc Acíwt 24 awr yn Ysbyty Glangwili neu i ganolfan strôc arbenigol arall, fel y canolfannau thrombectomi yng Nghaerdydd neu Fryste, yn unol â'u hanghenion.

Byddai Glangwili yn darparu gwasanaeth strôc arbenigol 24 awr, saith niwrnod yr wythnos ac adsefydlu i drin cleifion yn ystod eu cyfnod hyperacíwt (sydd fel arfer yn ystod y 72 awr gyntaf) a'r cyfnod acíwt (rhwng tri i ddeg diwrnod fel arfer).

Ar ôl yr amser hwn, byddai rhai cleifion yn ddigon iach i ddychwelyd adref, gyda chefnogaeth y Tîm Rhyddhau Cynnar gyda Chymorth. Ar gyfer cleifion sydd angen triniaeth strôc arbenigol bellach a chymorth yn yr ysbyty, byddai hyn yn digwydd yn Ysbyty Glangwili ar gyfer cleifion sy'n byw yn ne ardal ein Bwrdd Iechyd neu yn Ysbyty Bronglais ar gyfer cleifion o Geredigion a'r cyffiniau.

Ni fyddai unrhyw newid i'r ffordd y mae pobl yn cyrchu gofal ac asesiad yn gyntaf ac yn y model hwn byddai pob claf yn dal i fynd i'r ysbyty agosaf, yn union fel y maent yn ei wneud yn awr.

## Opsiynau blaenorol ar strôc gafwyd eu hystyried gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Roedd dau opswn y gwnaethom ymgynghori arnynt yn wreiddiol, fel rhan o'n Cynllun Gwasanaethau Clinigol, sef **Opsiwn A** ac **Opsiwn B**.

Roedd dau opsiwn amgen, a awgrymwyd gan ein cymunedau, yn bodloni meini prawf rhwystr a chawsant eu hystyried gan y Bwrdd, **Opsiwn 106** ac **Opsiwn 210**.

| Cipolwg | Bronglais | Glangwili | Tywysog Philip | Llwynhelyg |
|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Cyfredol** | Uned Strôc | Uned Strôc | Uned Strôc | Uned Strôc |
| **Opsiwn A** | Trin a Throsglwyddo | Trin a Throsglwyddo | Uned Strôc (gwasanaeth cyflenwi arbenigol **12 awr** y dydd) | Uned Strôc (gwasanaeth cyflenwi arbenigol **12 awr** y dydd) |
| **Opsiwn B** | Trin a Throsglwyddo | Trin a Throsglwyddo | Uned Strôc (gwasanaeth cyflenwi arbenigol **24 awr** y dydd) | Trin a Throsglwyddo ac Uned Strôc (gwasanaeth cyflenwi arbenigol **12 awr** y dydd) |
| **Opsiwn 106** | Trin a Throsglwyddo<br>Uned Adsefydlu Strôc | Trin a Throsglwyddo | Uned Strôc (gwasanaeth cyflenwi arbenigol **12 awr** y dydd) | Uned Strôc (gwasanaeth cyflenwi arbenigol **12 awr** y dydd) |
| **Opsiwn 210** | Trin a Throsglwyddo ac Uned Strôc (gwasanaeth cyflenwi arbenigol **12 awr** y dydd) | Uned Strôc (gwasanaeth cyflenwi arbenigol **24 awr** y dydd)<br>Yna<br>Creu canolfan strôc ranbarthol yn Ysbyty Treforys Trin a Throsglwyddo | Trin a Throsglwyddo | Trin a Throsglwyddo |

Roedd **Opsiwn A** yn cynnwys Unedau Trin a Throsglwyddo yn ysbytai Bronglais a Glangwili, ac Unedau Strôc (ar gyfer gwasanaeth cyflenwi arbenigol 12 awr y dydd) yn ysbytai Tywysog Philip a Llwynhelyg.

Roedd **Opsiwn B** yn cynnwys Unedau Trin a Throsglwyddo yn ysbytai Bronglais a Glangwili, Uned Strôc (gwasanaeth cyflenwi arbenigol 24 awr y dydd) yn Ysbyty Tywysog Philip ac Uned Trin a Throsglwyddo a Strôc (gwasanaeth cyflenwi arbenigol 12 awr y dydd) yn Ysbyty Llwynhelyg. O dan yr opsiwn hwn byddai cleifion yn Ysbyty Llwynhelyg yn cael eu trosglwyddo i Ysbyty Tywysog Philip ar gyfer eu gofal cychwynnol cyn dychwelyd i Ysbyty Llwynhelyg i gael gofal pellach ac adsefydlu strôc.

Yn y ddau opsiwn, byddai ysbytai Bronglais a Glangwili yn dod yn ysbytai Trin a Throsglwyddo ar gyfer strôc.

Roedd **Opsiwn 106** yn seiliedig ar Opsiwn A ac roedd yn cynnwys Unedau Trin a Throsglwyddo yn ysbytai Bronglais a Glangwili, ac Unedau Strôc (gwasanaeth cyflenwi arbenigol 12 awr y dydd) yn ysbytai Tywysog Philip a Llwynhelyg.

O dan yr opsiwn hwn byddai cleifion yn Ysbyty Bronglais yn cael eu trosglwyddo i Ysbyty Tywysog Philip ar gyfer eu gofal cychwynnol cyn dychwelyd i Ysbyty Bronglais i gael adsefydlu strôc pellach.

Roedd **Opsiwn 210** yn seiliedig ar Opsiwn B ond yn defnyddio safleoedd gwahanol. Roedd yn cynnwys Unedau Trin a Throsglwyddo yn ysbytai Tywysog Philip a Llwynhelyg, Uned Strôc (gwasanaeth cyflenwi arbenigol 24 awr y dydd) yn Ysbyty Glangwili ac Uned Trin a Throsglwyddo a Strôc (gwasanaeth cyflenwi arbenigol 12 awr y dydd) yn Ysbyty Bronglais.

Byddai cleifion yn Ysbyty Bronglais yn cael eu trosglwyddo i Ysbyty Glangwili ar gyfer eu gofal cychwynnol cyn dychwelyd i Ysbyty Bronglais ar gyfer gofal pellach ac adsefydlu strôc.